# Ysgol John Bright

# Pennaeth Gyfadran Cymraeg ac **ITM**

## MPS/UPS + CDA 1b (£9472)












Inspiring achievement


A great place for education -
a great place to live ...
North Wales
Lle gwych i gael addysg -
Lle gwych i fyw ...
Gogledd Cymru









# Live your Dream ... Work in Wales!!

**Come and join our team.**

## Gwireddwch eich Breuddwyd ... Gweithiwch yng Nghymru!!

**Dewch i ymuno â'n tîm.**








# Amazing activities for EVERY generation

## Gweithgareddau anhygoel ar gyfer POB cenhedlaeth




# Croeso

Annwyl Ymgeisydd

Diolch am ddangos diddordeb yn y swydd hon. Credais y byddai o gymorth pe bawn i'n cynnig persbectif personol i chi ar yr ysgol a'r rôl ei hun. Rwy'n gobeithio y bydd hyn yn eich helpu i benderfynu a yw Ysgol John Bright yn ysgol lle byddech chi'n hapus, yn ffynnu ac yn gallu cyfrannu at ei llwyddiant.

Gellir priodoli llwyddiannau a chyflawniadau'r ysgol yn uniongyrchol i'w myfyrwyr, sy'n bobl ifainc hapus, fynegiannol, weithgar a phositif ac yn gaffaeliad i'n cymuned. Maent am gael addysg ragorol a bod yn ddysgwyr llwyddiannus. Ar ben hynny, mae gennym staff talentog, ymrwymedig, ymroddgar a brwd gydag angerdd dros ddarparu addysg fythgofiadwy ac addysgu a dysgu sy'n ysgogi cynnydd. Mae'r lefel gofal, arweiniad a chefnogaeth a geir yn Ysgol John Bright yn eithriadol.

Cafodd ein hysgol ei hailadeiladu'n llwyr yn 2004 ac rydym yn cynnig darpariaeth wych. Mae gan bob ystafell ddosbarth dechnoleg ryngweithiol. Mae gennym feysydd chwarae helaeth, ac ystafelloedd arbenigol ar gyfer pob maes cwricwlwm gyda pharcio i staff ar y safle.

Mae YJB yn lle gwych i weithio. Mae'n fywiog, ac yn ffocysu ar addysgu a dysgu a gofalu am ein myfyrwyr. Rydym yn disgwyl y gorau gan y rhai sy'n gweithio yma, ac felly rydym yn chwilio am y staff gorau i weithio gyda'n myfyrwyr. Rydym hefyd yn ffodus i gael corff llywodraethu rhagweithiol, uchelgeisiol a rhieni cefnogol.

Mae'r ysgol wedi ei lleoli yn un o ardaloedd prydferthaf Gogledd Cymru, ac mae digon i'w weld a'i wneud yn y rhan odidog hon o Gymru. Mae'r cysylltiadau trafnidiaeth yn rhagorol, gyda Llundain dim ond 3 awr i ffwrdd ar y trên, ac mae un o theatrau mwyaf Cymru a chyfleusterau o safon fyd-eang ar gyfer pobl fentrus ac anturiaethus ar drothwy ein drws.

Mae'n lle hyfryd i ddysgu a gweithio ac mae hefyd wedi cyrraedd cam datblygiad cyffrous! Cyn cyflwyno'ch cais, os hoffech weld pam ein bod ni'n ystyried bod YJB yn ysgol mor wych i weithio ynddi a pham fod y swydd ei hun mor gyffrous, yna cysylltwch â ni i drefnu ymweliad.

Yn gywir

Ann Webb
Pennaeth



Headteacher **Ann Webb**

# Lleoliad

Lleolir yr ysgol yng nghanol tref dwristaidd Llandudno ac adleolodd i adeilad gwych o'r radd flaenaf yn 2004. Dyma'r unig ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg sy'n gwasanaethu'r dref a'i chefnwlad. Mae cysylltiadau ffordd a rheilffordd gwych ar hyd arfordir Gogledd Cymru ac mewn awr neu lai gallwch fod yng Nghaer, Lerpwl, maes awyr Manceinion, porthladd fferi Caergybi er mwyn teithio i Iwerddon neu ar ganol mawredd Parc Cenedlaethol Eryri a'i fynyddoedd.

Mae gan Ysgol John Bright ddalgylch amrywiol sy'n cynnwys naw ysgol gynradd ddynodedig o wahanol feintiau a mathau. Mae tua 1300 o fyfyrwyr ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd, 210 ohonynt yn ein Chweched Dosbarth bywiog, sy'n cynyddu o hyd.

Mae Ysgol John Bright yn gwerthfawrogi pob unigolyn – pob myfyriwr ac aelod staff, staff addysgu a staff cefnogi fel rhan o'n cymuned ddysgu. Ein nod yw darparu amgylchedd dysgu symbylol a reolir yn effeithiol ac sy'n cefnogi ein pobl ifainc wrth iddynt ddatblygu cariad at ddysgu, gan roi'r modd i fyfyrwyr o bob gallu fynd i'r afael â heriau addysg, gwaith a bywyd yn yr 21ain Ganrif.

# Adeiladau'r Ysgol

Yn yr ysgol newydd mae ardaloedd ar gyfer pob maes cwricwlwm, wedi'u lleoli mewn pum bloc a gysylltir â'i gilydd gan dramwyfa ganolog. Mae gan bob cyfadran swyddfa a cheir ystafell waith fawr ar gyfer staff wrth ymyl yr ystafell athrawon eang.

Mae'r cyfleusterau yn YJB yn cynnig cyfoeth o gyfleoedd o fewn a thu allan i'r dosbarth yn ein hysgol gyfoes gan gynnwys:

- Ystafelloedd Technoleg sy'n cynnwys gweithdai, ystafelloedd tecstilau arbenigol, darpariaeth arlwyo o safon fasnachol, ardaloedd celf/dylunio, crochenwaith ac ystafell dywyll ar gyfer ffotograffiaeth.
- Bloc Gwyddoniaeth sy'n cynnwys 12 labordy, ar dri llawr a gysylltir gan weinydd mud.
- Cyfleusterau Addysg Gorfforol helaeth – campfa, neuadd chwaraeon enfawr, 2 gae chwarae bob tywydd (un ohonynt o safon hoci rhyngwladol), 2 ardal chwarae caled tarmac wedi'u ffensio a chaeau chwarae glaswellt ac ardaloedd chwarae eang.
- Ardal Chweched Dosbarth gydag ystafelloedd gwaith ar wahân ar gyfer Blwyddyn 12 ac 13. Mae gan bob myfyriwr Chweched Dosbarth eu gliniaduron eu hunain.
- Ardal adnoddau llyfrgell gyda system fenthyg sy'n adnabod ôl bys.
- Bellach mae pob aelod staff yn rhannu eu gwaith drwy Google Education, sef rhith-amgylchedd dysgu.
- Ystafell Ddrama gyda goleuadau arbenigol a system sain.
- Adrannau Cerddoriaeth a Ffotograffiaeth gyda chyfres lawn o gyfrifiaduron Apple Mac.






# Manyleb Swydd

## Pwrpas Craidd : **Pennaeth Cymraeg ac ITM**

- I weithio gyda'r Pennaeth i ddarparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer Cymraeg ac ITM
- I arwain a rheoli addysgu Cymraeg ac ITM er mwyn sicrhau'r cynnydd gorau i fyfyrwyr
- I hyrwyddo ymagwedd flaengar a chreadigol tuag at addysgu a dysgu o fewn addysg Gymraeg ac ITM sy'n cynnwys gweithgareddau allgyrsiol.




## Atebolrwydd Allweddol : Arweinyddiaeth

- I gyfathrebu'r weledigaeth ar gyfer Cymraeg ac ITM a hynny mewn ffordd sy'n cefnogi a hyrwyddo gwerthoedd a gweledigaeth yr ysgol
- I arwain a rheoli staff sy'n addysgu Cymraeg ac ITM er mwyn sicrhau canlyniadau o ansawdd uchel ar gyfer pob myfyriwr
- I werthuso a rheoli perfformiad staff, gan sicrhau bod DPP yn briodol ac yn effeithiol
- I werthuso ansawdd y ddarpariaeth a'r canlyniadau drwy hunanasesiad cadarn a defnyddio'r canfyddiadau i ddatblygu'r gallu i sicrhau gwelliant cynaliadwy
- I gyfrannu at gynlluniau gwella ysgol gyfan ac arwain cynllunio strategol yn effeithiol yn Gymraeg ac ITM

I gyflawni dyletswyddau arweinydd ysgol gan roi sylw dyledus i Safonau Arweinyddiaeth Cenedlaethol Cymru (2011) (http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/140630-revised-professional-standards-en.pdf)

Mae Ysgol John Bright wedi ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifainc ac mae'n disgwyl i'r holl staff a gwirfoddolwyr rannu'r ymrwymiad hwn.
Fel rhan o'ch rôl yn Ysgol John Bright gallwch ddisgwyl derbyn cefnogaeth lawn gan yr ysgol er mwyn gallu rhagori yn eich rôl.

# Deilliannau **Myfyrwyr**

- Asesu, monitro, cofnodi ac adrodd ar anghenion dysgu, cynnydd a chyflawniad myfyrwyr a grwpiau o ddysgwyr (PYD, SIY, MAT, ADY) o fewn yr adran; sicrhau bod cynnydd yn gyflym ac yn barhaus
- Cynllunio pwyntiau asesu a gweithgareddau gwaith cartref effeithiol er mwyn monitro cynnydd parhaus ac ymestyn y dysgu y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth
- Gosod targedau effeithiol ar gyfer myfyrwyr a bod yn atebol am eu cyflawni
- Defnyddio data yn effeithiol i olrhain cynnydd a chydlynu ymyrraeth; cofnodi a gwerthuso effaith ymyriadau
- Cwrdd â thargedau ar gyfer cymwysterau achrededig gan gynnwys TGAU a Saron Uwch
- Sicrhau bod staff y Gyfadran yn cyfathrebu â rhieni yn effeithiol
- Asesu ymagwedd myfyrwyr tuag at ddysgu o fewn y maes pwnc a chynnig cefnogaeth lle bo angen i gynnal safonau ymgysylltu uchel
- Gweithredu polisïau ysgol ac adrannol a gynlluniwyd i wella safonau cyflawniad pob myfyriwr

# **Cwricwlwm**

- Cyflwyno ac asesu rhaglenni astudio a chyrsiau cytunedig
- Rheoli a diweddaru cynlluniau gwaith addas
- Sicrhau bod offer ac adnoddau'r adran yn cael eu cynnal yn dda a bod yr ystafelloedd a neilltuir at ddefnydd yr adran yn derbyn gofal ac yn amgylchedd deniadol i fyfyrwyr
- Rhwydweithio ag ysgolion eraill tebyg a rhyngweithio ag ymgynghorwyr ac arolygwyr fel bo angen
- Sicrhau bod themâu traws gwricwlaidd llythrennedd a rhifedd wedi'u mewnblannu mewn ymarfer adrannol
- Darparu ystod eang o weithgareddau allgyrsiol sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg ac ITM, a fydd yn apelio at bob myfyriwr ac yn cynyddu cyfranogiad ar draws yr ysgol gyfan gan gynnwys grwpiau agored i niwed/targed
- Darparu profiadau cyfoethogi ac estynedig o ansawdd uchel i fyfyrwyr – gallai hyn gynnwys cymryd rhan mewn heriau neu gystadlaethau, teithiau, ymweliadau, cyfleoedd i berfformio, siaradwyr gwadd ayb.
- Cyflawni unrhyw dasgau rhesymol yn unol â chyfarwyddyd eich rheolwr llinell.







# Manylion am yr Unigoln

| Cymwysterau | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| Wedi derbyn addysg i lefel gradd | ✓ | |
| Statws athro cymwysedig | ✓ | |
| Profiad o addysgu uwchradd (Cymraeg iaith gyntaf neu ail iaith) | ✓ | |
| Profiad o addysgu safon uwch (Cymrage iaith gyntaf neu ail iaith) | | ✓ |

| Profiad | Essential | Desirable |
|---|---|---|
| Profiad o arwain strategaethau ymyrraeth i gefnogi myfyrwyr | ✓ | |
| Wedi dangos nodweddion arweinyddiaeth yn eich rôl bresennol | ✓ | |
| Tystiolaeth glir o arwain tîm i gyflymu cynnydd | ✓ | |
| Tystiolaeth o effaith ar lefel ysgol gyfan | | ✓ |
| Yn cyflawni rôl arweinyddiaeth ar hyn o bryd ac yn gallu dangos effaith gadarnhaol o'r rôl hon | ✓ | |

| Gwybodaeth am | Essential | Desirable |
|---|---|---|
| Datblygiadau cyfredol ym maes arweinyddiaeth | | ✓ |
| Gwahanol arddulliau dysgu a strategaethau addysgu sy'n hyrwyddo cynhwysiad a gweledigaeth ein hysgol | ✓ | |
| Dealltwriaeth o nodweddion rhagoriaeth mewn Gwyddoniaeth | ✓ | |
| Defnydd o ddata i ddangos cyrhaeddiad a photensial myfyrwyr o fewn model cynhwysiad | ✓ | |
| Manylebau byrddau arholi ac effaith bosibl adolygiadau cwricwlwm yng Nghymru a Lloegr | | ✓ |

| Sgiliau | Essential | Desirable |
|---|---|---|
| Hyrwyddo gweledigaeth o ragoriaeth dysgu a chynhwysiad | ✓ | |
| Gallu i greu ac arwain eraill i greu cyfleoedd dysgu symbylol a heriol | ✓ | |
| Gallu i symbylu a gweithredu fel delfryd ymddwyn gadarnhaol, broffesiynol bob amser | ✓ | |

| Ymddygiad | Essential | Desirable |
|---|---|---|
| Defnyddio gwybodaeth a sgiliau yn gyson i sicrhau ffocws cryf ar wella safonau | ✓ | |
| Hawdd mynd atynt, hyblyg ac yn gallu gwrando, adfyfyrio ac ymateb i newid | ✓ | |
| Unigolyn cadarnhaol, optimistaidd a gwydn gydag ysfa, unplygrwydd ac anianawd siriol | ✓ | |
| Gallu symbylu ac ysbrydoli drwy osod a dilyn safonau uchel | ✓ | |
| Ymrwymiad i roi anghenion pobl ifainc wrth wraidd popeth a wnewch | ✓ | |

# Cyfadran y Gymraeg a Ieithoedd

Mae'r Gyfadran Gymraeg a Ieithoedd Modern yn dîm o athrawon ymroddedig ac angerddol sydd a'u bwriad i gyfoethogi bywydau pob disgybl yn eu gofal.

Dysgir y Gymraeg fel ail-iaith ac ar hyn o bryd mae'r disgyblion yn cael eu setio o'r dechrau ym mlwyddyn saith o ganlyniad i'w lefelau CA2. Rydym yn ffodus o allu cynnig y dair iaith, Cymraeg, Ffrangeg a Sbaeneg fel Safon Uwch gyda niferoedd rhagorol yn enwedig yn y Gymraeg.

Mae'r Gyfadran yn fywiog ac egnïol ac fe gynigir nifer o weithgareddau all-gyrsiol i'r disgyblion. Mae clwb yr Urdd wedi bod yn llwyddiannus iawn gyda'r aelodau yn mwynhau chwaraeon, gweithgareddau creadigol ac ambell daith i'r 'Hwylfan' gyfagos. Trefnir hefyd daith flynyddol i Gaerdydd i flasu peth o ddiwylliant Cymru ynghŷd ag ymweliad i'r Stadiwm i wylio un o gemau'r Hydref. Cynigir teithiau tramor i ddisgyblion Ieithoedd Modern hefyd; y mwyaf diweddar oedd taith lwyddiannus i Normandy. Mae cynlluniau ar waith ar gyfer taith i Sbaen yn ystod 2018-19.



## Staffio a Chyfleusterau

Mae naw aelod o staff yn y Gyfadran ar hyn o bryd; pump yn yr adran Gymraeg a phedair yn yr adran Ieithoedd Modern. Mae'r Gyfadran yn cynhyrchu canlyniadau da yng Nghyfnod Allweddol 4 a 5, sy'n cymharu'n ffafriol â deilliannau Cenedlaethol. Penodwyd Dirprwy Bennaeth y Gyfadran, sy'n gyfrifol am Ieithoedd Modern, yn 2016 ac mae hi wedi bod yn weithredol drwy wneud y defnydd mwyaf posib o arbennigedd a phrofiad staff yr adran er mwyn sicrhau canlyniadau ardderchog.

Mae gan y Gyfadran ystafell 'seminar' a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer gwaith llafar, yn ogystal â swyddfa ar y cyd.

Dysgir pob gwers mewn ystafelloedd arbenigol. Mae adnoddau TGCh yn benigamp ac mae gan y Gyfadran 'Chromebooks' ar gyfer dosbarth cyfan yn eu tro. Mae'r ysgol gyfan yn defnyddio meddalwedd Google sy'n caniatau rhannu adnoddau rhwng yr holl staff, ac yn galluogi posibiliadau pell gyrhaeddiol i'r disgyblion o ran rhyngweithio, ymrwymiad a chynnydd.

